# Atgyfnerthu stoma parhaol â rhwyll synthetig neu fiolegol i atal torgest drwy stoma

26 Mehefin 2019

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio neu ba mor ddiogel ydyw ar gyfer atal torgest drwy stoma. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau, a hynny oherwydd y pryderon ynghylch ei effeithiau hirdymor a chymhlethdodau difrifol.

Stoma yw agoriad ar flaen yr abdomen, a wneir er mwyn caniatáu i ysgarthion neu wrin gael eu casglu mewn bag y tu allan i'r corff. Mae torgest drwy stoma yn digwydd pan fydd rhan o'r coluddyn yn chwyddo o amgylch y stoma. Gall hyn achosi anesmwythder a phroblemau wrth osod y bag stoma, a gall flocio'r stoma. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys mewnosod darn o rwyll yn agos at y stoma pan gaiff ei greu. Caiff ei bwytho yn ei le. Gall y rhwyll fod yn synthetig neu'n fiolegol (wedi'i wneud o feinwe anifail, fel arfer meinwe mochyn). Y nod yw cryfhau wal yr abdomen ac atal torgest.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

## Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-7975-2



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.